Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

# The **Intermediate Labour Market (ILM)**



The ILM aims to reduce economic inactivity in North Wales by investing in organisations to provide work experience and training for people facing barriers to employment



## About the ILM

The ILM is a scheme under the European Union's Convergence programme, which is the successor to Objective 1.

It aims to reduce economic inactivity in the Convergence areas of North Wales by offering contracts to organisations providing personal development to people facing barriers to employment through a period of supported employment and training.

## What is meant by 'barriers to employment'?

The ILM will invest in organisations that are able to support and develop people who have become benefit dependant and those who face other barriers to work including:

- People in receipt of incapacity benefit
- Women who want to return to work
- Black, Asian and minority ethnic people
- People with a work limiting health condition or disability
- People over 50 years of age

Other target groups include:

- Ex-offenders
- Substance misusers
- Lone parents
- Young people not in employment, education or training
- Economically inactive people

## Is it a grant fund?

No. The ILM is a scheme that will offer contracts for up to 12 months through a tendering process.

Contracts will require organisations to provide outcomes to target participants in specific geographical areas through a period of supported employment.

## What type of outcomes are required to win a contract?

The ILM will invest in organisations that provide structured and relevant work experience and individual support to target participants.

Contracted organisations will be expected to deliver personal development outcomes that result in a proportion of participants consequently gaining non-supported employment and / or nationally recognised qualifications.

## Which organisations can tender for the ILM contracts?

Any organisation can tender for the ILM contracts.

No organisation will be excluded from gaining contracts based on their geographic location. However, activities must be delivered to participants within the Convergence areas of North Wales and WCVA is seeking to maximise Welsh input within the scheme.

## How much money can the ILM invest in organisations?

The ILM will issue contracts up to a maximum of £150,000. An element of match funding will be required.

The level of match funding for each contract will depend on the tendering organisation's capacity and circumstances, and would be agreed at contract negotiation stage.

Match funding may include financial contribution, in-kind donations or volunteer time.

## Is there any support available in preparing a tender?

Advice is available locally through agencies such as the Contract Shop, county voluntary councils or local authorities.

WCVA will also offer accessible training in preparing tenders, briefing sessions and 'meet the buyer' events.

## What should interested organisations do next?

WCVA will invite organisations on its approved supplier list to tender for appropriate contracts. To join the approved supplier list, organisations need to complete and submit a pre-qualification questionnaire (PQQ).

To request a PQQ, contact the WCVA Helpdesk on 0800 2888 329 or email ilm@wcva.org.uk

Organisations that would like to discuss the process of tendering to the ILM before submitting a PQQ should contact the WCVA Helpdesk in the first instance.

## Where are the tender opportunities publicised?

Organisations on WCVA's approved supplier list will be directly invited to tender for appropriate contracts.

Invitations to tender will also appear on www.sell2wales.co.uk and www.wefo.wales.gov.uk

## What are the Convergence areas of North Wales?

Anglesey, Conwy, Denbighshire and Gwynedd.

**WCVA North Wales Office**
Morfa Hall
Bath Street
Rhyl
Denbighshire
LL18 3EB

**www.wcva.org.uk**

Registered Charity 218093
January 2009

The Intermediate Labour Market is a scheme funded by the Welsh Assembly Government and European Structural Funds (European Social Fund), and managed by Wales Council for Voluntary Action (WCVA), the umbrella body for the third sector in Wales.

ESF
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
**Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich Dyfodol**
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
**Europe & Wales: Investing in your Future**
European Social Fund

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

# Y Farchnad Lafur Drosiannol (MLD)



Nod y Farchnad Lafur Drosiannol yw lleihau anweithgarwch economaidd yng Ngogledd Cymru drwy fuddsoddi mewn mudiadau i ddarparu profiad gwaith a hyfforddiant i bobl sy'n wynebu rhwystrau rhag cyflogaeth



## Cefndir y Farchnad Lafur Drosiannol

Cynllun dan raglen Cydgyfeirio'r Undeb Ewropeaidd, sef olynydd Amcan 1, yw'r Farchnad Lafur Drosiannol (MLD).

Ei nod yw lleihau anweithgarwch economaidd yn ardaloedd Cydgyfeirio Gogledd Cymru drwy gynnig contractau i fudiadau sy'n darparu datblygiad personol i bobl sy'n wynebu rhwystrau rhag cyflogaeth drwy roi cyfnod o hyfforddiant a chyflogaeth dan gymorth iddynt.

## Beth yw ystyr 'rhwystrau rhag cyflogaeth'?

Bydd y MLD yn buddsoddi mewn mudiadau sy'n gallu cefnogi a datblygu pobl sydd wedi dod yn ddibynnol ar fudd-daliadau a'r rheini sy'n wynebu rhwystrau eraill rhag gweithio, gan gynnwys y canlynol:

- Pobl sy'n cael budd-dal analluogrwydd
- Menywod sy'n dymuno dychwelyd i'r gwaith
- Pobl ddu, pobl Asiaidd a phobl o leiafrifoedd ethnig
- Pobl sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio
- Pobl dros 50 oed

Dyma rai o'r grwpiau targed eraill:

- Cyn-droseddwyr
- Camddefnyddwyr sylweddau
- Rhieni unigol
- Pobl ifanc nad ydynt mewn gwaith, mewn addysg nac yn cael hyfforddiant
- Pobl sy'n economaidd anweithgar

## Ai cronfa grantiau ydyw?

Na. Mae'r MLD yn gynllun a fydd yn cynnig contractau hyd at 12 mis drwy broses dendro.

Er mwyn ennill contractau, bydd angen i fudiadau ddarparu canlyniadau i gyfranogwyr targed mewn ardaloedd daearyddol penodol drwy gyfnod o gyflogaeth dan gymorth.

## Pa fath o ganlyniadau y bydd eu hangen i ennill contract?

Bydd y MLD yn buddsoddi mewn mudiadau sy'n darparu profiad gwaith strwythuredig a pherthnasol a chymorth unigol i gyfranogwyr targed.

Bydd disgwyl i'r mudiadau sydd dan gontract sicrhau canlyniadau datblygiad personol sy'n arwain at gyflogaeth lawn a/neu gymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol i gyfran o gyfranogwyr.

## Pa fudiadau a all dendro am gontractau'r Farchnad Lafur Drosiannol?

Gall unrhyw fudiad dendro am gontractau'r MLD

Ni fydd yr un mudiad yn cael ei eithrio o allu ennill contractau ar sail eu lleoliad daearyddol. Fodd bynnag, rhaid darparu gweithgareddau i gyfranogwyr o fewn ardaloedd Cydgyfeirio Gogledd Cymru ac mae WCVA yn ceisio sicrhau'r cyfraniad Cymreig mwyaf posibl o fewn y cynllun.

## Faint o arian gall y Farchnad Lafur Drosiannol ei fuddsoddi mewn mudiadau?

Bydd y MLD yn rhoi contractau gwerth hyd at £150,000. Bydd angen elfen o arian cyfatebol.

Bydd lefel yr arian cyfatebol ar gyfer pob contract yn dibynnu ar allu ac amgylchiadau'r mudiad sy'n tendro, a chytunir ar hyn yn ystod y cam trafod.

Gall yr arian cyfatebol gynnwys cyfraniad ariannol, rhoddion ymarferol neu amser gwirfoddolwyr.

## A oes unrhyw gymorth ar gael i baratoi tendr?

Mae cyngor ar gael yn lleol drwy asiantaethau megis y Siop Contractau, cynghorau gwirfoddol sirol neu awdurdodau lleol.

Bydd WCVA hefyd yn cynnig hyfforddiant hwylus ar gyfer paratoi tendrau, sesiynau briffio a digwyddiadau 'cwrdd â'r prynwr'.

## Beth ddylai'r mudiadau sydd â diddordeb ei wneud nesaf?

Bydd WCVA yn gwahodd mudiadau sydd ar ei restr o gyflenwyr cymeradwy i dendro am gontractau priodol. Er mwyn ymuno â'r rhestr o gyflenwyr cymeradwy, bydd angen i fudiadau lenwi a chyflwyno holiadur cyn-gymhwyso.

I ofyn am holiadur, cysylltwch â Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329 neu anfonwch e-bost i ilm@wcva.org.uk

Dylai mudiadau a fyddai'n hoffi trafod y broses dendro i'r MLD cyn cyflwyno holiadur cyn-gymhwyso gysylltu â Lein Gymorth WCVA yn y lle cyntaf.

## Lle caiff y cyfleoedd tendro eu cyhoeddi?

Bydd mudiadau ar restr WCVA o gyflenwyr cymeradwy yn cael eu gwahodd yn uniongyrchol i dendro am gontractau priodol.

Bydd gwahoddiadau i dendro hefyd yn ymddangos ar www.gwerthwchigymru.co.uk a www.wefo.cymru.gov.uk

## Pa ardaloedd yw ardaloedd Cydgyfeirio Gogledd Cymru?

Ynys Môn, Conwy, sir Ddinbych a Gwynedd.

**Swyddfa Gogledd Cymru WCVA**
Neuadd y Morfa
Stryd y Baddon
Y Rhyl
Sir Ddinbych
LL18 3EB

**www.wcva.org.uk**

Rhif Cofrestru'r Elusen 218093
Ionawr 2009

Mae'r Farchnad Lafur Drosiannol yn gynllun a noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd (Cronfeydd Cymdeithasol Ewrop) ac a reolir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), corff ymbarél y trydydd sector yng Nghymru.

ESF
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich Dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your Future
European Social Fund

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government